CBAC
WJEC

# CANLLAWIAU ATHRAWON

## Manylebau TGAU Newydd:
## I'w dysgu o Fedi 2010

## Cymraeg Ail Iaith



# Cynnwys

## Cymraeg Ail Iaith TGAU
## Canllawiau i Athrawon

**Tudalen**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Rhagarweiniad** | **2** |
| | 1.1 - Rhesymeg | 3 |
| | 1.2 - Gorolwg o'r fanyleb newydd | 3 |
| **2.** | **Canllawiau Uned** | **4** |
| | 2.1 - Uned 1 : Arholiad Ysgrifennu a Darllen | 4 |
| | 2.2 - Uned 2 : Asesiad Dan Reolaeth | 9 |
| **3.** | **Cefnogaeth i Athrawon** | **49** |
| | 3.1 - GCaD Cymru | 49 |
| | 3.2 - Gwefannau Cyffredinol | 50 |
| | **Cyfranwyr at y Canllawiau i Athrawon** | **50** |

# 1. RHAGARWEINIAD

Mae manyleb Cymraeg Ail Iaith TGAU CBAC sydd i'w chyflwyno o Fedi 2010 wedi'i haddasu a'i diweddaru. Dyfernir y cwrs byr am y tro cyntaf yn yr haf 2011 a'r cwrs llawn yn haf 2012. Gweler tudalen 2 o'r fanyleb ar gyfer cyfleoedd asesu'r unedau. Gellir cyflwyno ac asesu'r fanyleb mewn canolfannau ledled y Deyrnas Unedig.

Mae cyhoeddi meini prawf Cymraeg Ail Iaith TGAU diwygiedig gan y rheolyddion wedi gorfodi newid yn strwythur y cwrs presennol.

Mae'r Canllawiau yma'n un o sawl ffordd mae CBAC yn cynnig cymorth i athrawon sy'n cyflwyno'r fanyleb newydd. Mae'r deunyddiau asesu enghreifftiol (papurau cwestiynau a chynlluniau marcio), a'r cynadleddau datblygiad proffesiynol (HMS) hefyd yn angenrheidiol i'w gyflwyniad.

Darperir y canlynol hefyd a gobeithir y byddant yn ddefnyddiol:

- Adroddiadau arholwyr ar bob cyfres arholiadau
- Mynediad rhad ac am ddim i gyn-bapurau drwy wefan ddiogel CBAC
- Mynediad hawdd i'r manylebau a dogfennau allweddol eraill ar brif wefan y bwrdd
- Adborth fesul eitem ar ganlyniadau ar gyfer yr ymgeiswyr ar lefel cwestiwn
- DPP cyson gan Brif Arholwyr
- Adnoddau pellach ar wefan Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu - Cymru (GCaD-Cymru)]
- Cysylltiad rhwydd â'r Swyddog Pwnc a'r adrannau gweinyddol

Mannau Cyswllt ar gyfer Cymraeg Ail Iaith TGAU yw:

Siân Llewelyn
**sian.llewelyn@cbac.co.uk** 02920 265162
(Swyddog Pwnc)

Siân Eleri Walters
**sian.walters@cbac.co.uk** 02920 265055
(Ymgynghorydd Pwnc Cymraeg: Iaith Gyntaf a Chymraeg Ail Iaith)

Natalie Challenger
**natalie.challenger@cbac.co.uk** 02920 265192
(Swyddog Cefnogaeth Pwnc)

Tudalen Pwnc : **www.cbac.co.uk**

Adran DPP: **hms@cbac.co.uk**
**www.cbac.co.uk/datblygiadproffesiynol**

## *1.1 Rhesymeg*

Mae'r manylebau hyn yn darparu profiadau sy'n rhoi cyfle i bob ymgeisydd ymgyrraedd at ei botensial llawn yn y Gymraeg yn ôl ei allu a'i angen. Anelir at sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y Gymru gyfoes gan feithrin ymagweddiad cadarnhaol tuag at y Gymraeg a'i diwylliant. Datblygir sgiliau ymgeiswyr i ddefnyddio'r iaith at ddibenion cyfathrebu effeithiol a phwrpasol yn eu bywyd bob dydd a/neu mewn sefyllfaoedd galwedigaethol.

## *1.2 Gorolwg o'r Fanyleb*

**Disgwylir i ymgeiswyr y Cwrs Byr gyflawni Unedau 1 a 2.**

**Disgwylir i ymgeiswyr y Cwrs Llawn gyflawni Unedau 1, 2, 3 a 4.**

| |
|---|
| **UNED 1 Papur Ysgrifenedig: 1 awr (25%) (140 marc) Haen Uwch a Sylfaenol (GMU: 50)** |
| 4 cwestiwn – 2 ysgrifennu (10%)<br>2 ddarllen (15%) |
| **UNED 2 Asesiad dan Reolaeth (25%) (Dim Haen) (100 marc) (GMU: 50)** |
| Llafaredd 20%<br>Tasg 1 – Cyflwyniad unigol (10%)<br>Tasg 2 – Sgwrs Sefyllfa (10%) – Tasg pâr/grŵp<br><br>Ysgrifennu – (5%)<br>Gwaith ysgrifennu yn deillio o'r sgwrs sefyllfa. |
| **UNED 3 Arholiad Llafar: 10 munud (25%) (50 marc)<br>Haen Uwch a Sylfaenol (GMU: 50) [CWRS LLAWN YN UNIG]** |
| Llafaredd 20%<br>Arholiad llafar pâr/ grŵp.<br>Darllen 5%<br>Trafod deunydd darllen fel symbyliad i'r arholiad llafar. |
| **UNED 4 Papur Ysgrifenedig: 1 awr (25%) (140 marc) Haen Uwch a Sylfaenol (GMU: 50) [CWRS LLAWN YN UNIG]** |
| 4 cwestiwn – 2 ysgrifennu (15%)<br>2 ddarllen (10%) |

# 2. CANLLAWIAU UNED

## 2.1 Uned 1 – Arholiad Ysgrifennu a Darllen

## CODI SAFONAU YMATEBION YSGRIFENEDIG

### Enghraifft 1

Rydych chi'n mynd i aros yng nghanolfan yr Urdd yng Nglan-llyn gyda'r ysgol.
Llenwch y ffurflen hon **yn Gymraeg** er mwyn iddyn nhw baratoi ar eich cyfer.
**Defnyddiwch frawddegau llawn yn yr adrannau gyda *.**
*You are going to stay in the Urdd centre in Glan-llyn with your school.*
*Complete this form* ***in Welsh*** *so that they can arrange things for you.*
***Use full sentences in the sections marked *.***

| |
|---|
| Enw: Gareth Wyn |
| Cyfeiriad: 30 Heol Fawr, Bangor |
| Rhif ffôn cartref: 01248 499499 |
| *Ysgrifennwch am eich diddordebau. (2 ffaith/2 *facts*).<br>*Write about your interests.* |
| Dw i'n yn diddordebau a hobïau yn mynd i'r dawnsio |
| *Ysgrifennwch am eich hoff fwyd. (2 ffaith/2 *facts*).<br>*Write about your favourite food.* |
| Fy hoff fwyd sglodion a grefi a fi hoffi pasta |
| *Ysgrifennwch am eich hoff ffilm/iau. (2 ffaith/2 *facts*). |
| Fi hoff ffilmiau 'Step Up' achos dawnsio |
| *Ysgrifennwch am eich hoff noson allan. (2 ffaith/2 *facts*).<br>*Write about your favourite night out.* |
| Noson allan yn sinema da achos mae bendigedig |
| *Ysgrifennwch am bethau dydych chi ddim yn hoffi. (2 ffaith/2 *facts*).<br>*Write about things you don't like.* |
| Dw i'n ddim yn hoffi pêl droed achos diflas |

## Enghraifft 2

Ysgrifennwch e-bost **yn Gymraeg**, at ffrind sydd wedi bod yn absennol o'r ysgol, i ddweud am y trip ysgol ar ddiwedd y tymor.
W*rite an e-mail* ***in Welsh****, telling a friend who has been absent from school, about the end of term school trip.*

Rhaid sôn am: *You must mention:*

i ble mae e'n mynd *where it's going*
ddyddiad y trip *the date of the trip*
amser dechrau *what time the trip starts*
amser dod nôl *what time it returns*
sut rydych chi'n mynd *how you're going*
oes eisiau gwisg ysgol? *do you have to wear school uniform?*
y pris llawn *the total price*
beth sydd yn y pris *what's included in the price*
beth rydych chi'n mynd i wneud *what you are going to do*
pa athrawon sy'n mynd *which teachers are going*

| |
|---|
| I: Mair |
| Oddi wrth: Siwan |
| Pwnc:TRIP YSGOL |
| Shwmae! Mae trip dod Llangrannog. Dyddiad trip Mawrth 2. Amser dechrau deg o'r gloch ac amser dod nol yn pump o'r gloch. Rydych chi'n mynd bws a hoffi gwisg ysgol. Pump punt pris llawn. Rydych chi'n mynd i wneud tennis, rhedeg, nofio, dawnsio a sgio. Athrawon mynd ar trip. |

## Enghraifft 3

Ysgrifennwch lythyr at gyflogwr yn gofyn a ydych chi'n gallu mynd i'w le gwaith ef/hi ar eich profiad gwaith yn y dyfodol.
*Write a letter to an employer asking permission to go to his/her workplace for work experience in the future.*

Dylech chi: *You should:*

| | | |
|---|---|---|
| i. | Sôn amdanoch eich hun | *Give some information about yourself* |
| ii. | Dweud beth ryd ych chi'n astudio yn yr ysgol | *Say what you are studying at school* |
| iii. | Dweud beth yd y eich hoff bynciau a pham | *Say what your favourite subjects are and why* |
| iv. | Dweud beth hoffech chi wneud ar eich profiad gwaith | *Say what you would like to do on your work experience* |
| v. | Gofyn am y gweithle e.e. oriau gwaith, gwisg a.y.b. | *Ask about the workplace e.g. hours of work, clothing etc.* |
| vi. | Dweud beth rydych chi'n gobeithio gwneud yn y dyfodol. | *Say what you hope to do in the future.* |

Dyma rai syniadau i'ch helpu gyda (iv):
*Here are some ideas to help you with (iv):*



cyfeiriad

dyddiad.

Anwyl gyflogwr

Dw i'n mynd i'r ysgrifennwch lythyr achos dw i'n hoffi mynd i'r ' Blush' ar fy profiad gwaith yn y dyfodol. Fy enw ydy Nina Harrod a dw i'n un deg chwech oed ac yn byw yn Caerffili. Dw i'n astudio Mathemateg, cymraeg, celf, saesneg, hanes a celf yn TGAU. Fy hoff byncïau ydy cymraeg a saesneg achos mae nhw'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi yn helpu gyda ffôn, siarad cwsmeriaid a helpu yn gyflogwr yn yr profiad gwaith. Pryd wyt ti'n dechrau a gorffen? Beth wyt ti'n gwisgo yn y gweithle? Dw i'n gobeithio gwneud yn y dyfodol lefel A dw i mynd i gweithio yn yr ysgol gyda plant bach yn y dyfodol. Diolch yn fawr yn yr amser yn darllen lythyr.

Hwyl fawr.

Nina Harrod.

Codi safonau:

- mae'r ymgeisydd wedi gosod y llythyr allan yn iawn
- wedi ceisio defnyddio'r wybodaeth yn y cwestiwn yn synhwyrol
- wedi ceisio sicrhau ei bod wedi cadw at ofynion y dasg.

## Enghraifft 4


Mae eich dosbarth Cymraeg yn yr ysgol yn cyfrannu at dudalen drafod gwefan swyddogol yr ysgol. Mae eich athrawes Gymraeg yn gofyn i chi ysgrifennu **yn Gymraeg** am **dri** o'r testunau isod. (Tua 75 o eiriau ar bob un.) Gallwch ddefnyddio'r lluniau i'ch helpu.

- Ysgrifennwch am y pwyntiau da a'r pwyntiau drwg am bob un o'r tri o'ch dewis chi.
- Rhowch eich barn bersonol chi am bob un.

*Your Welsh class at school are contributing material for the school's official website discussion page. The Welsh teacher asks you to select **three** topics and write **in Welsh** about them.*
*(Approximately 75 words on each one.) You can use the pictures to help you.*

- *Write about the good and bad points of the three you have chosen.*
- *Give your own personal opinion about each one.*

**A. Problemau yfed alcohol dan oed**



Yn fy ardal, rydw i'n meddwl bod pobl ifanc yn yfed alcohol yn problem fawr yn anffodus. Ar y penwythnos, rydyn nhw'n mynd i'r parc neu ar y stryd a yfed alcopos a cwrw. Y sbwriel ar i stryd yn ofnadwy a yn y parc. Yn fy marn i mae'n wastraff amser a arian yfed alcohol dan oed. Rydw i'n hoffi prynu dillad a losin.

Codi safonau:

- ôl dysgu a defnyddio cystrawennau addas - e.e. rydw i'n meddwl bod.
- ôl dysgu a defnyddio geirfa addas.

**CH. Cadw'n iach a heini**





Cadw'n iach a heini yn da achos mae'n helpu gweithio yn yr ysgol. Dylwn ti bwyta brecwast bob dydd. Mae llysiau a ffrwythau'n iach iawn. Mae siocled a bisgedi yn afiach iawn.

Cadw'n iach a heini ddim yn dda bob amser achos mae weithio peryglus. Mae model size O yn peryglus iawn.

Yn fy marn i, cadw'n iach a heini yn da achos mae llawer o hwyl. Ond mae gormod ydy peryglus.

**2.2 Uned 2 – Asesiad dan Reolaeth**

# <u>Tasg 1</u> - Llafaredd (10%) - y cyflwyniad unigol




**Rhaid i'r cyflwyniad fod yn seiliedig ar destun/ destunau allan o Gyd-destun A:**

- **Gwyliau**
- **Chwaraeon**
- **Ffasiwn/ siopa**
- **Sêr o Gymru**
- **Sinema/ byd y ffilmiau**
- **Canu pop**
- **Gwaith elusennol/ gwaith rhan-amser**
- **Ardal**
- **Diwylliant Cymru**
- **Cymru**
- **Fi fy hunan**
- **Digwyddiad arbennig**

## Manylion pellach

Dylai ymgeiswyr

- ddewis pynciau sy'n eu caniatáu i ddangos lefel eu gallu
- defnyddio ystod o iaith sy'n addas i'r testun a ddewiswyd ac i lefel eu gallu
- o safon gradd G - D siarad am 2-3 munud
- o safon gradd C - A* siarad am 4-5 munud
- dangos tystiolaeth o waith ymchwil yn ystod y cyflwyniad

Gall ymgeiswyr

- ddefnyddio nodiadau byr (dim mwy na 30 gair ar ffurf pwyntiau bwled) sy'n cynnwys ystadegau, ffeithiau, enghreifftiau, dyfyniadau perthnasol ac ati. Pwrpas y pwyntiau bwled yw rhoi strwythur i'r dasg. Ni ddylid cynnwys patrymau brawddegol, cystrawennau, idiomau ayyb. ar unrhyw gyfrif. Dylai'r athro athrawes gadw'r pwyntiau bwled wedi'r cyflwyniad

  *(am enghreifftiau o bwyntiau bwled)*
- defnyddio cyfarpar megis *PowerPoint* wrth wneud y cyflwyniad ond dim mwy na 30 gair ar ffurf pwyntiau bwled yma eto
- defnyddio symbyliad gweledol megis ffotograff, cerdyn post neu wrthrych bach os yw'n dymuno

Gall yr athro/athrawes ymyrryd yn adeiladol er mwyn galluogi'r ymgeiswyr i ddangos eu gwir allu h.y. cyflawni gofynion y dasg ar eu lefelau arbennig nhw.

Rhaid i'r athro/athrawes:

- farcio'r dasg allan o 40 (20 marc am y cynnwys ac 20 marc am y mynegiant); *(am y cynllun marcio)*
- asesu a chyflwyno marc ar gyfer pob ymgeisydd
- danfon sampl o ymgeiswyr ar drawsdoriad o farciau penodedig i'w safoni gan CBAC
- cynnwys y pwyntiau bwled a/neu'r symbyliadau gweledol a ddefnyddiwyd gan ymgeiswyr y sampl
- danfon ail sampl i CBAC os bydd ei hangen

# Enghreifftiau o’r Asesiad dan Reolaeth

## Tasg 1 - Y Cyflwyniad Unigol

## Enghraifft 1 - yn seiliedig ar y cyd-destun ‘Ardal’.

**Testun arbennig - Aber*****

### CAM 1

**Cyflwyno’r dasg.**

- Dewis y testun (Aber***** - ardal arbennig)
- Adolygu geirfa, patrymau ac ati
- Paratoi: syniadau, awgrymiadau ac ati.
  *(am ddeunyddiau paratoi)*

### CAM 2

**Y gwaith ymchwil e.e.**

- ar y we (www. aber***** ……….)
- cylchgronau/ llyfrau (e.e. *Lingo, Iaw*)
- teithlyfrau / llawlyfrau (e.e. y cyngor lleol)/ taflenni gwybodaeth lleol (e.e. twristiaeth)
- pytiau o raglenni teledu (e.e. *Bro* gyda Iolo Williams a Siân Cothi / fideos / DVDs ayb.
- hen ffotograffau / cardiau post
- papurau lleol / papurau bro
- cyfweliadau gyda thrigolion o’r ardal

### CAM 3

**Y cyflwyniad**

- cyflwyno gwybodaeth ar Aber*****
- gellir defnyddio pwyntiau bwled o’r gwaith ymchwil (dim mwy na 30 gair)
- gellir defnyddio *PowerPoint* neu symbyliadau gweledol ( e.e. lluniau o dîm rygbi Aber*****)
- ymgeisydd gradd G-D i siarad am 2-3 munud
- ymgeisydd gradd C-A* i siarad am 4-5 munud
- yr athro/athrawes i gyfrannu yn ôl yr angen.

**Enghraifft 2 - yn seiliedig ar y cyd-destun 'Sinema/ Byd y ffilmiau'. Testun arbennig - Ffilmio yng Nghymru.**

**CAM 1**

**Cyflwyno'r dasg.**
- Dewis y testun (Ffilmio yng Nghymru)
- Adolygu geirfa, patrymau ac ati
- Paratoi: syniadau, awgrymiadau ac ati

**CAM 2**

**Y gwaith ymchwil e.e.**
- ar y we
- cylchgronau am ffilmiau (e.e. *Film World, Empire*)
- cylchgronau / llyfrau (e.e. *Lingo, Iaw*)
- papurau newydd, papurau lleol (atodiadau adloniant yn arbennig)
- taflenni gwybodaeth o'r sinemâu
- pytiau o raglenni teledu (e.e. *Slaymake*r)/ fideos/ DVD ayb.
- hen ffotograffau / cardiau casglu/ posteri/ albymau;
- ymweliadau (e.e. arddangosfa Dr Who / set Torchwood yng Nghaerdydd/ olrhain olion traed Gavin a Stacey yn y Barri)
- cyfweliadau gydag actorion (e.e. Rhys Ifans) neu gyda pherthnasau actorion (e.e. rhieni Ioan Gruffudd)

**CAM 3**

**Y cyflwyniad**
- cyflwyno gwybodaeth ar 'Ffilmio yng Nghymru'
- gellir defnyddio pwyntiau bwled o'r gwaith ymchwil (dim mwy na 30 gair)
- gellir defnyddio *PowerPoint* neu symbyliadau gweledol (e.e. ffotograffau o set Harry Potter a Robin Hood yn Freshwater West neu Tomb Raider 2 yn Nantgwynant)
- ymgeisydd gradd G-D i siarad am 2-3 munud
- ymgeisydd gradd C-A* i siarad am 4-5 munud
- yr athro/athrawes i gyfrannu yn ôl yr angen

## Enghraifft 3 - yn seiliedig ar y cyd-destun 'Sêr Cymru'.
**Testun arbennig - Ryan Giggs.**

**CAM 1**

**Cyflwyno'r dasg.**
- Dewis y testun (Ryan Giggs)
- Adolygu geirfa, patrymau ac ati
- Paratoi: syniadau, awgrymiadau ac ati

**CAM 2**

**Y gwaith ymchwil e.e.**
- ar y we
- cylchgronau (e.e. *Lingo, Iaw*), cylchgronau chwaraeon
- llyfrau (e.e. 'Cyfres Enwogion – Ryan Giggs' gan Elgan Philip Davies (CAA)/ 'Gweld Sêr' gan Ian Gwyn Hughes (Gwasg Gomer)
- papurau newydd
- rhaglenni gêmau pêl-droed (Cymru a Man.Utd.)
- hen ffotograffau/ cardiau casglu/ albymau/ posteri
- rhaglenni teledu (e.e. Chwaraewr y Flwyddyn)
- gwylio Ryan yn chwarae mewn 2 gêm arbennig (gemau byw/ ar y teledu/ DVD ac ati)
- archifdy Man.Utd.
- cyfweliadau gyda chefnogwyr Man.Utd. o'r ardal

**CAM 3**

**Y cyflwyniad**
- cyflwyno gwybodaeth ar Ryan Giggs
- gellir defnyddio pwyntiau bwled o'r gwaith ymchwil (dim mwy na 30 gair)
- gellir defnyddio *PowerPoint* neu symbyliadau gweledol (e.e. llofnod Ryan Giggs/ rhaglen gêm)
- ymgeisydd gradd G-D i siarad am 2-3 munud
- ymgeisydd gradd C-A* i siarad am 4-5 munud
- yr athro/athrawes i gyfrannu yn ôl yr angen

# Asesiad Dan Reolaeth – Uned 2
# Pwyntiau Bwled - Llafar - Y Cyflwyniad Unigol

## Derbyniol ✓

**Yr Ardal**
Ble? B4711 afon sir
Cyfleusterau? ✓ ×
adeiladau - tai – siopau -ysgolion
hanes – eglwys – castell - tafarn
pobl enwog - John Wilson
penwythnos - haf - gaeaf
ffatri - 160 dim gwaith – 21%
cyfrifiad (*census*) – Cymraeg
hamdden – chwaraeon – afon
dref - ymwelwyr

**Ffilmio yng Nghymru**
Ffilmiau : Edge of Love - Cei
Newydd/ HP + RH – Freshwater
East / Bond – gogledd - £3m?
Teledu - Casualty Caerdydd
Dr Who / Torchwood / Gavin &
Stacey / Cymraeg / S4C / Rownd
Actorion – CZJ / Ioan Gruffudd /
Mat. Rhys / Anthony Hopkins
Hoff actor(es) / ffilm/ rhaglen
uchelgais

**Ryan Giggs**

Geni 29/11/73 – Tre Elai
Tad (DW)/ tadcu - Sierra Leonne
- bwlio-lliw/ 6oed Manceinion/
pam symudodd ei dad i Swinton ...
Wilson Giggs
Man.Utd. 1977 - gêm 1 v Everton -
2/3/91 / 11 teitl / 4 cwpan / 3 cwpan
Cynghrair / 2 Champions League
Cymru 1991/ifanca /64 cap /12 gôl
Capten 2004 / chw. y flwyddyn
Unicef. Stacey /Liberty Beau /Zac

## Annerbyniol ✗

**Yr Ardal**
Pentref bach ydy e
Gormod o sbwriel
Dylai'r cyngor
Hoffwn i weld
Problemau cyffuriau ac yfed dan
oed/ graffiti
Mae'n gas gen i
Basai'n well gen i
Ymddwyn yn gyfrifol

**Ffilmio yng Nghymru**
Cyfleusterau gwych yng Nghymru
Casualty yn symud i Gaerdydd
Dylai fod mwy o ……..
Mae David Tennant wedi gorffen
Caerdydd yn lle delfrydol
Wrth fy modd (really enjoy)
Symudodd e i Hollywood

**Ryan Giggs**

Cafodd RG ei eni –Tachwedd '73
Cafodd ei fwlio achos ….
Newidiodd ei enw i Giggs …..
Chwaraeodd ei gêm gyntaf …
Mae e wedi ennill ……..
Cenhadwr dros UNICEF

***Cliciwch ar y canlynol:***

**CYFLWYNIAD Uned 2: Llafaredd** | **CYNLLUN MARCIO Llafaredd** | **DEUNYDD ENGHREIFFTIOL Llafaredd**

# Asesiad Dan Reolaeth – Uned 2

## Cynllun Marcio Tasg 1 - Llafar - Y Cyflwyniad Unigol

| **Marc** | **Cynnwys** | | **Mynegiant** | **Marc** |
|---|---|---|---|---|
| 19-20 | • Uchelgeisiol iawn o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau gan gynhyrchu cyfraniadau estynedig lle'n briodol.<br>• Mynegi barn yn hyderus iawn gan resymu'n berthnasol. | | • Cyfathrebu'n hyderus iawn.<br>• Geirfa eang a chyfoethog.<br>• Defnyddio ystod eang ac amrywiol o<br>• ymadroddion, cwestiynau a phatrymau<br>• bra wddegol.<br>• Defnyddi o cystrawennau Cymraeg yn gyson gywir.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.<br>• Elfen gref o gywirdeb.<br>• Ynganu bron yn berffaith. | 19-20 |
| 17-18 | • Uchelgeisiol o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau gan gynhyrchu cyfraniadau eithaf estynedig weithiau.<br>• Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol. | | • Cyfathrebu'n hyderus.<br>• Geirfa gyfoethog.<br>• Defnyddio ystod amrywiol ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddi o cystrawennau Cymraeg yn rheolaidd gywir.<br>• Defnyddio amrywiaeth o ffurfiau berfol cywir (amser a pherson) yn eithaf rheolaidd.<br>• Elfen gref o gywirdeb.<br>• Ynganu'n gywir ac yn glir. | 17-18 |
| 15-16 | • Diddorol o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau yn ddigon hyderus.<br>• Yn barod iawn i fynegi barn gan roi rhesymau dilys. | | • Cyfathrebu'n rhwydd.<br>• Geirfa dda iawn.<br>• Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddi o cystrawennau Cymraeg yn gywir.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan.<br>• Iaith yn gywir iawn ar y cyfan.<br>• Ynganu'n gywir ac yn glir ar y cyfan. | 15-16 |


| **Marc** | **Cynnwys** | | **Mynegiant** | **Marc** |
|---|---|---|---|---|
| 12-14 | • Digonol o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau yn effeithiol.<br>• Yn barod i fynegi barn gan roi rhesymau digonol. | | • Cyfathrebu'n rhwydd ar y cyfan.<br>• Geirfa dda.<br>• Defnyddio amrywiaeth o ymadroddion,<br>• cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio o cystrawennau Cymraeg yn gywir ar y cyfan.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir.<br>• Iaith yn gywir ar y cyfan.<br>• Ynganu'n gywir ac yn glir fel arfer. | 12-14 |
| 9-11 | • Digonol o ran cynnwys, syniadau a barn, ond braidd yn ddifflach.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau yn ddigon effeithiol ar y cyfan.<br>• Mynegi barn yn effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan. | | • Cyfathrebu'n eithaf rhwydd ar y cyfan.<br>• Geirfa eithaf da.<br>• Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol digonol.<br>• Defnyddio rhai cystrawennau Cymraeg yn gywir.<br>• Ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson) ar adegau.<br>• Iaith yn weddol gywir ar y cyfan.<br>• Ynganu'n ddigon cywir a chlir. | 9-11 |
| 7-8 | • Yn arwynebol o ran cynnwys, syniadau a Barn gan gadw at y disgwyladwy.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar bynciau cyfarwydd yn ddigon effeithiol.<br>• Mynegi barn yn eithaf effeithiol gan roi rhesymau syml. | | • Cyfathrebu'n ddealladwy.<br>• Geirfa ddisgwyliedig.<br>• Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio cystrawennau Cymraeg ond camgymeriadau amlwg.<br>• Cryn ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson).<br>• Iaith yn weddol gywir ond camgymeriadau amlwg.<br>• Ynganu'n ddigon clir weithiau. | 7-8 |
| 5-6 | • Arwynebol iawn o ran cynnwys, syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth syml ar rai pynciau cyfarwydd.<br>• Mynegi barn syml gan roi rhesymau syml. | | • Cyfathrebu'n ddealladwy ond petrusgar a herciog iawn.<br>• Geirfa gyfyng gan ddefnyddio'r Saesneg yn aml.<br>• Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnydd cyfyngedig o gystrawennau Cymraeg.<br>• Ansicrwydd amlwg gyda ffurfiau berfol gan ddibynnu'n ormodol ar y presennol.<br>• Diffyg cywirdeb iaith.<br>• Ynganu'n ddealladwy i wrandäwr cydymdeimladol. | 5-6 |

| **Marc** | **Cynnwys** | | **Mynegiant** | **Marc** |
|---|---|---|---|---|
| 3-4 | • Fawr ddim cynnwys, syniadau na barn.<br>• Gwneud peth ymdrech i gyflwyno gwybodaeth elfennol iawn.<br>• Mynegi barn syml iawn heb resymau | | • Cyfathrebu'n ddealladwy weithiau i wrandäwr cydymdeimladol.<br>• Geirfa gyfyng iawn gyda defnydd eang o'r Saesneg.<br>• Defnyddio geiriau unigol yn aml yn hytrach nag ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Dim defnydd o gystrawennau Cymraeg.<br>• Ffurfiau berfol anghywir yn aml.<br>• Iaith wallus iawn.<br>• Ynganu'n aneglur fel arfer. | 3-4 |
| 0-2 | • Dyma'r ymgeiswyr fydd heb radd.<br>• Dim llawer o ymdrech i gyfrannu o gwbl.<br>• Diffyg barn. | | • Diffyg cyfathrebu.<br>• Geirfa gyfyng a syml iawn.<br>• Dim llawer i'w wobrwyo | 0-2 |

**Asesiad Dan Reolaeth – Uned 2**
**Deunyddiau paratoi y Cyflwyniad Unigol – 'Yr Ardal'**

# Yr Ardal

Grwp 4



Enw : ........................................................

Dosbarth : ................................................


Athrawes : ................................................

© Ysgol Cardinal Newman (Tachwedd 09)

# YR ARDAL

1 **Sut le ydy ……..?** **What kind of place is ……… ?**

tref (f) town pentref (m) village




| | | | |
|---|---|---|---|
| fawr | big | fach | small |
| swnllyd | noisy | dawel | quiet |
| gyfeillgar | friendly | ddiddorol | interesting |
| brysur | busy | frwnt | dirty |
| lân | clean | ddiflas | boring / miserable |

| | |
|---|---|
| Tref fach ydy hi | It's a small town |
| Pentre bach ydy e | It's a small village |
| Tref fawr ydy Pontypridd | Pontypridd is a large town |
| Pentre mawr ydy Ystrad Mynach | Ystrad Mynach is a big village |

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………



2 **Pa gyfleusterau sy yn yr ardal ?** **What facilities are in the area ?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae | llawer o | siopau | yno |
| | ychydig o | gyfleusterau | yn y dre |
| | gormod o | sbwriel | ar y strydoedd |
| Does dim | digon o | adloniant | yn y pentre |

**Siopau**

| | | |
|---|---|---|
| ………………………… | ………………………… | ………………………… |
| ………………………… | ………………………… | ………………………… |
| ………………………… | ………………………… | ………………………… |
| ………………………… | ………………………… | ………………………… |

**Cyfleusterau eraill**

| | | |
|---|---|---|
| ………………………… | ………………………… | ………………………… |
| ………………………… | ………………………… | ………………………… |
| ………………………… | ………………………… | ………………………… |

4 **Oes rhywbeth diddorol yn yr ardal ? Is there anything interesting in the area ?**
(List places of interest which are close by )
Oes = Yes Nag oes = No




Parc Treftadaeth Y Rhondda
Stadiwm y Mileniwm
Castell Coch
Dan yr Ogof
Bae Caerdydd
Bro Gŵyr
Y bont ym Mhontypridd
Castell Caerdydd
Castell Caerffili
Bannau Brycheiniog
Sain Ffagan
yr arfordir (the coast)

| | | | |
|---|---|---|---|
| traethau | beaches | mynyddoedd | mountains |
| amgueddfa | museum | amgueddfeydd | museums |
| siopau | shops | castell / cestyll | castle / s |

………………………… ………………………… …………………………

………………………… ………………………… …………………………



5 **Beth hoffet ti gael yn yr ardal ? What would you like to have in the area ?**


Hoffwn i gael ………. I'd like to have ………

………………………… ………………………… …………………………

………………………… ………………………… …………………………

6 **Oes digon o gyfleusterau i bobl ifanc ? Are there enough facilities for the young?**
Oes = Yes Nag oes = No

clwb nos / clybiau nos
pwll nofio
sinema / sinemau
canolfan hamdden / canolfan chwaraeon
clwb ieuenctid
tafarn / tafarnau



…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

7 **Beth dwyt ti ddim yn hoffi am y lle ? What don't you like about the place ?**

Dydw i ddim yn hoffi ………. I don't like ……….
Mae'n gas gyda fi ………. I hate ……….
Basai'n well gyda fi ………. I would prefer ……….



**8 Oes problemau yn yr ardal ?** **Are there problems in the area ?**

(We will deal with this in more detail later)

Oes = Yes Nag oes = No

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae | cyffuriau | yn broblem | fawr |
| | sbwriel | | ofnadwy |
| | fandaliaeth | | ddifrifol |
| | graffiti | | sy'n cynyddu |
| | yfed | | |
| | trais | | |

Does dim llawer o broblemau yn yr ardal — There are not many problems in the area



**9 Beth ddylai'r cyngor wneud i helpu ?** **What should the council do to help ?**

Dylai'r cyngor .......... — The council should ..........

ddarparu cyfleusterau i bobl ifanc — provide facilities for young people
gosbi pobl am fod yn anghyfrifol — punish people for being irresponsible
baratoi adloniant — prepare entertainment

Mae rhaid i bobl ifanc .......... — Young people must ..........

ymddwyn yn gyfrifol — behave responsibly
beidio mynd dros ben llestri — not go over the top
barchu eiddo pobl eraill — respect other peoples' property
barchu ei gilydd — respect each other
ystyried teimladau pobl eraill — consider other peoples' feelings

# YSGOLION YN YR ARDAL

**1 Faint o ysgolion sy yn yr ardal ? How many schools are in the area ?**

Mae .......... o ysgolion yn .......... There are .......... schools in ..........

**2 Pa ysgolion sy yn yr ardal ? What schools are in the area ?**

| | | |
|---|---|---|
| Mae | ysgol fach | infants |
| | ysgol gynradd | primary |
| | ysgol gyfun | comprehensive |
| | ysgol Gymraeg | Welsh |
| | ysgol Gatholig | Catholic |
| | ysgol feithrin | nursery |
| | meithrinfa | nursery |



..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**3 Oes ysgolion Cymraeg yn yr ardal ? Are there Welsh schools in the area ?**

Oes = Yes Nag oes = No

Mae ............ ysgol Gymraeg yn ........ There are .......... Welsh schools in ..........

Does dim un ysgol Gymraeg yn yr ardal There isn't one Welsh school in the area

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**4 Ydy'r ysgolion yn yr ardal yn dda ? Are the schools good in the area ?**

Ydyn = Yes, they are Nag ydyn = no, they are not

Mae'r ysgolion yn iawn / dda iawn / ofnadwy

Mae llawer o broblemau yn yr ysgolion fel ...................... a ......................

Does dim llawer o broblemau yn yr ysgolion

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

# Y GYMRAEG YN YR ARDAL

1 **Oes llawer o bobl yn siarad Cymraeg yn yr ardal ?**
**Do many people speak Welsh in the area ?**
Oes = Yes Nag oes = No

Mae | pobl ifanc / plant bach / hen bobol / plant yr ysgolion Cymraeg | yn siarad Cymraeg

Does dim llawer o bobl yn siarad Cymraeg — Not many people speak Welsh
Mae llawer o bobl yn dysgu Cymraeg — Lots of people are learning Welsh

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

2 **Ble mae pobl yn siarad Cymraeg** **Where do people speak Welsh ?**
Mae pobl yn siarad Cymraeg | yn yr ysgol / yn y capel / ar y stryd / mewn dosbarth nos / yn Clwb Y Bont (Pontypridd)

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

3 **Oes dosbarthiadau Cymraeg yn yr ardal ?** **Are there Welsh classes in the area ?**
Oes = Yes Nag oes = No

Mae dosbarthiadau Cymraeg yn ……………………
There are Welsh classes in ……………………………

4 **Wyt ti'n cael cyfle i siarad Cymraeg tu fâs i'r ysgol ?**
**Do you get the opportunity to speak Welsh outside school ?**
Ydw = Yes, I do No, I don't

Rydw i'n siarad Cymraeg gyda ………………………………………………………………

Rydw i'n ymarfer Cymraeg gyda ………………………………………………………………

Does dim cyfle i siarad Cymraeg o gwbl

# Asesiad Dan Reolaeth – Uned 2
# Trawsgrifiad cyflwyniad unigol dychmygol – 'Yr Ardal'
# Aberpumseren (Aber*****)

Miss : Bore da, Sam!
Sam : Bore da, Miss!
Miss: Nawr te, Sam. Cyflwyna dy hunan.
Sam : Sam Davies ydw i. Rydw i'n 15 oed. Mae un brawd ac un chwaer gen i. Rydw i'n byw yn Aberpumseren.
Miss : A rwyt ti'n mynd i siarad am ardal Aber*****. Wel, bant â ti.
Sam : Pentref bach yn y Cymoedd ydy Aber***** yn sefyll ar y B4711 rhwng Pontpum***** a thref Aberlloer. <u>Yn ôl y we</u> mae Aber***** tua pum milltir o Bont***** a deng milltir o Aberlloer. Rydw i'n byw gyda fy nheulu mewn tŷ teras. Mae fy nhad yn gweithio yn y ffatri batris yn y pentref, ac mae mam yn gweithio mewn swyddfa yn Aberlloer. <u>Yn ôl y we</u> mae pymtheg y cant o'r bobl yn gweithio yn y ffatri batris. Mae dros ugain y cant yn ddi-waith. Mae Gavin a Stacey, fy mrawd a chwaer, yn dod i'r ysgol yma yn Aberlloer.
Miss : Da iawn, rwyt ti wedi dechrau'n dda. Nawr te, sut le ydy Aber*****?
Sam : Fel y dwedes i, pentref bach ydy e. Does dim llawer iawn o bobl yn byw yno. <u>Roedd Cyfrifiad 2001 yn dweud</u> bod 657 o bobl yn byw yn Aber*****. Mae mwy erbyn hyn, wrth gwrs, achos maen nhw wedi adeiladu nifer o dai newydd. Mae stad o fyngalos newydd ar waelod y pentref. Ar y cyfan, mae'r bobl yn gyfeillgar iawn. Mae'n dawel iawn fel arfer, ac mae'n gallu bod yn ddiflas iawn weithiau.
Miss : Ydy hi? Pa gyfleusterau sy yn yr ardal?
Sam : Dim llawer! Mae Swyddfa'r Post yma ac maen nhw'n gwerthu bwyd, papurau a phethau arall yno. Mae siop ddillad fach yma hefyd ond mae popeth yno mor hen ffasiwn. Mae'n well 'da fi fynd i New Look neu Peacocks yn Aberlloer. Mae capel ac eglwys ac mae tafarn yma o'r enw Y Llew Du. Maen nhw'n coginio bwyd yno. Mae hi'n brysur iawn ar y penwythnos weithiau pan mae pobl yn dod i ganŵo ar yr afon Lloer. Mae'r afon ***** yn ymuno â'r Lloer yn agos i'r pentref.
Miss : Wyt ti'n canŵo ar yr afon?
Sam : Nag ydw. Ond rydw i wrth fy modd yn pysgota – yn y ddwy afon. <u>Pan oedd</u> <u>dad-cu yn fach</u>, doedd dim pysgod yn yr afonydd. Roedd y dŵr yn ddu – achos y pyllau glo. Mae <u>Talfan Elis yn ei lyfr 'Crwydro'r Cymoedd'</u> yn dweud bod dŵr yr afon ***** yn ddu fel y frân. Ond mae e'n lân iawn heddiw. Mae llawer o bysgod yn yr afon erbyn hyn. Dalies i dri brithyll braf y penwythnos diwethaf. Mae samwn wedi dechrau dod i fyny'r afon hefyd.
Miss : Rwyt ti'n gallu pysgota. Oes cyfleusterau eraill i bobl ifanc yn y pentref?
Sam : Nag oes, dim byd. Mae rhai pobl ifanc yn achosi trwbl achos does dim byd i wneud. Maen nhw'n ysmygu, yfed dan oed a rhai yn cymryd cyffuriau. Mae graffiti'n broblem weithiau. Maen nhw'n achosi trwbl allan o ddiflastod. Does dim byd i wneud. Mae rhai pobl ifanc yn nofio yn yr afon yn yr haf. Maen nhw'n dwp achos mae hi'n gallu bod yn beryglus iawn weithiau. Os ydw i eisiau nofio, bydda i'n mynd gyda Gavin a Stacey i'r pwll nofio yn Aberlloer. Rydyn ni'n mynd i'r sinema yno hefyd. Gwelon ni 'Harry Potter and the Deathly Hallows' tua pythefnos yn ôl. Yn anffodus, dydyn ni

| | |
|---|---|
| | ddim yn gallu mynd yn aml achos does dim gwasanaeth bws da. Rhaid dibynnu ar mam neu dad i fynd â ni yn y car. <u>Mae mam-gu yn cofio</u> trenau yn rhedeg drwy'r pentref. Roedd gorsaf fach yma. Mae hi'n cofio mynd i lan y môr ar y trên yn ystod yr haf pan oedd hi'n ferch fach. Hoffwn i weld y trên yn dod 'nôl i'r pentref. |
| Miss : | Beth arall hoffet ti weld yn y pentref? |
| Sam : | Dylen ni gael clwb ieuenctid – yn neuadd yr eglwys neu yn festri'r capel. Mae digon o le yno ac mae digon o bobl ifanc. Gallem ni chwarae badminton a thenis bwrdd, actio mewn drama, dechrau grŵp pop efallai, a chael disgo ar y penwythnos weithiau. A beth am dîm pêl-droed? Does dim tîm yn y pentref. Dydy'r capel ddim yn brysur nawr. <u>Pan oedd mam-gu yn fach</u> roedden nhw'n cael llawer o hwyl yn y capel – pob math o weithgareddau. |
| Miss : | Beth am yr eglwys? |
| Sam : | Mae hanes diddorol i'r eglwys. Mae hi'n hen iawn. Maen nhw wedi ysgrifennu llyfryn bach am yr eglwys. Mae rhan o'r eglwys yn mynd 'nôl i tua'r flwyddyn 1350. <u>Cyn darllen yr hanes</u> doeddwn i ddim yn gwybod bod yr eglwys mor hen. Mae hi'n ddiddorol iawn. Rydw i wedi dysgu llawer wrth wneud y gwaith cwrs. |
| Miss : | Da iawn. A rwyt ti wedi siarad llawer am yr ardal – llawn digon. Da iawn wir. |
| Sam : | Diolch. |

## <u>Sylwadau</u>

**COFIER** mai sgript sgwrs artiffisial iawn a geir yma – am ardal ddychmygol gyda llawer o gyfeiriadau dychmygol. Nid dysgu sgript o'r math yma ar gof y disgwylir. Yn sicr, ni ddylai'r athro /athrawes fod yn rhan o unrhyw sgript. Ar ôl dweud hynny bydd ymgeiswyr, yn arbennig y goreuon, yn siŵr o ddysgu llawer ar gof – y gamp yw addasu'r hyn a ddysgwyd i ateb gofynion y dasg e.e. ymateb yn ystyrlon i ymyrraeth yr athro/ athrawes gan ddangos yn glir eu bod yn deall cyfraniad yr athro/athrawes yn ogystal â chynnwys yr hyn a ddysgwyd. Wrth gwrs, bydd yna gyflwyniadau heb unrhyw gyfraniad o gwbl gan yr athro/athrawes e.e. wrth ddefnyddio *PowerPoint*. Yma eto dylai'r ymgeiswyr geisio argyhoeddi'r arholwr eu bod yn deall yr hyn maent yn ei ddweud.

Mae cyflwyniad Sam uchod yn un arbennig o dda – yn ateb gofynion y cynllun marcio, cynnwys a mynegiant, ar y lefel uchaf. Mae'r pytiau a danlinellwyd yn awgrymu tipyn o waith ymchwil – ar y we, llyfr 'Crwydro'r Cymoedd', Cyfrifiad 2001, holi tad-cu a mam-gu, y llyfryn am yr eglwys Buasai'n syniad i'r goreuon, o leiaf, gynnwys cyfeiriadau o'r fath, er nad yw hynny'n orfodol. Yn sicr, bydd yna ymgeiswyr fydd yn gyndyn iawn i wneud unrhyw waith ymchwil.

## <u>Tasg 2</u> - Llafaredd (10%) - y Sgwrs sefyllfa (pâr/ grŵp)
## Ysgrifennu (5%) - yn deillio o'r Sgwrs sefyllfa

### Y Sgwrs Sefyllfa

- Di-haen
- Pâr <u>neu</u> Grŵp o 3
- Pâr G-D 4-5 mun. / C-A* 6-7 mun.
  Grŵp G-D 6-7 mun. / C-A* 8-10 mun.
- Cynnwys y sgwrs yn seiliedig ar waith ymchwil
- Gall yr athro / athrawes gyfrannu a symbylu yn ôl yr angen
- Rhaid i'r drafodaeth fod yn seiliedig ar destun/destunau allan o Gyd-destun
  - Gwyliau
  - Chwaraeon
  - Ffasiwn / siopa
  - Sêr o Gymru
  - Sinema / byd y ffilmiau
  - Canu pop
  - Gwaith elusennol / gwaith rhan-amser
  - Ardal
  - Diwylliant Cymru
  - Cymru
  - Fi fy hunan
  - Digwyddiad arbennig

### Y Dasg Ysgrifennu

- Yn deillio o'r sgwrs sefyllfa
- Ymg. G-D (100-150 gair) / C-A*(200-300 gair)
- Sampl i CBAC gyda'r Sgwrs Sefyllfa
- Yn y dosbarth dan amodau prawf
- 1 awr
- Di-haen

## Manylion pellach: Y Sgwrs Sefyllfa

Dylai ymgeiswyr

- ddewis pynciau sy'n eu caniatáu i ddangos lefel eu gallu
- defnyddio ystod o iaith sy'n addas i'r testun a ddewiswyd ac i lefel eu gallu
- cyflwyno eu hunain ar ddechrau'r sgwrs e.e. John Jones ydw i. Dwi'n 16 oed. Dwi'n mynd i ysgol Gyfun Aber*****. Dwi'n hoffi rygbi. Fy hoff dîm ydy Dreigiau Gwent
- o safon gradd G-D (pâr) siarad am 4-5 munud
- o safon gradd G-D (grŵp) siarad am 6-7 munud
- o safon gradd C- A* (pâr) siarad am 6-7 munud
- o safon gradd C-A* (grŵp) siarad am 8-10 munud
- dangos tystiolaeth o waith ymchwil yn ystod y cyflwyniad.

Gall ymgeiswyr

- ddefnyddio nodiadau byr (dim mwy na 30 gair ar ffurf pwyntiau bwled), sy'n cynnwys ystadegau, ffeithiau, enghreifftiau dyfyniadau perthnasol ac ati. Pwrpas y pwyntiau bwled yw rhoi strwythur i'r dasg. Ni ddylid cynnwys patrymau brawddegol cystrawennau, idiomau ayb. ar unrhyw gyfrif. Dylai'r athro athrawes gadw'r pwyntiau bwled wedi'r recordiad.

  *(am enghreifftiau o bwyntiau bwled)*

Gall yr athro/athrawes ymyrryd yn adeiladol er mwyn galluogi'r ymgeiswyr i ddangos eu gwir allu h.y. cyflawni gofynion y dasg ar eu lefelau arbennig nhw.

Rhaid i'r athro/athrawes

- farcio'r dasg allan o 40 (20 marc am y cynnwys ac 20 marc am y mynegiant) *(am y cynllun marcio).*
- asesu a chyflwyno marc ar gyfer pob ymgeisydd
- danfon sampl o ymgeiswyr ar drawstoriad o farciau penodedig i'w safoni gan CBAC
- cynnwys y pwyntiau bwled a ddefnyddiwyd gan ymgeiswyr y sampl
- danfon ail sampl i CBAC os bydd ei hangen.

**Manylion pellach:**
**Y Dasg Ysgrifennu**

## Rhaid i'r dasg ysgrifennu ddeillio o'r Sgwrs Sefyllfa.

**Dylai ymgeiswyr**

- ddewis pynciau sy'n eu caniatáu i ddangos lefel eu gallu
- defnyddio ystod o iaith sy'n addas i'r testun a ddewiswyd ac i lefel eu gallu
- o safon gradd G-D ysgrifennu tua 100-150 o eiriau
- o safon gradd C-A* ysgrifennu tua 200-300 o eiriau.

**Gall ymgeiswyr**

- ddefnyddio 1 awr i gyflawni'r dasg o dan amodau prawf. Caniateir amser ychwanegol i ddisgyblion a chanddynt anghenion arbennig
- defnyddio TG ond mae'n rhaid i'r athrawon sicrhau na fydd gan yr ymgeiswyr fynediad i wirwyr sillafu
- defnyddio geiriaduron neu ddeunyddiau pwrpasol e.e. pwyntiau bwled sy'n cynnwys ystadegau, ffeithiau, enghreifftiau, dyfyniadau perthnasol ac ati (dim mwy na 40 gair). Pwrpas y pwyntiau bwled yw rhoi strwythur i'r dasg. Ni ddylid cynnwys patrymau brawddegol, cystrawennau, idiomau ayyb. ar unrhyw gyfrif

Ni all yr ymgeiswyr

- ymgynghori â'i gilydd
- ail ddrafftio'r dasg
- ail ysgrifennu'r dasg.

Rhaid i'r athrawon

- roi'r dasg i'r ymgeiswyr bedair wythnos cyn y prawf, yr un pryd â'r sgwrs sefyllfa
- marcio'r dasg allan o 20 (10 marc am y cynnwys a 10 marc am y mynegiant) *(am y cynllun marcio)*
